

Llyfr pwy yw'r Beibl?

“Y mae pob Ysgrhythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw ac yn fuddiol i hyfforddi, a cheryddu, a chywirow, a disgyblu mewn cyfiawnder.” (adn. 16)

Beth am ddarlenn 2 Timotheus 3:2–17 ac yna myfyrio

Yr ydym am edrych yn awr ar ffynnon arall, ffynnon y mae Philistiaid wedi bod yn arllwys eu sbwriel i mewn iddi – sef gwirionedd y Beibl. Mae'r meddylfryd Philistaidd yn derbyn y Beibl fel llyfr ysbrydoledig ond yn gwadu mai hwn yw unig reol awdurdod ffydd.

Blynnyddoedd lawer yn ôl, dywedodd Mahatma Gandhi wrth nifer o genhadon, “Yr ydych fel Cristnogion yn edrych ar ôl dogfen sydd yn cynnwys digon o rym i chwythu gwareiddiad yn ddarnau, i droi'r byd ben i waered, ac i ddwyn heddwch i blaned sydd wedi ei rhwygo gan ryfeloedd. Ond yr ydych yn ei thrin fel petai yn ddim mwy na darn o lenyddiaeth.” Mae'n drist i glywed am lawer pregethwr cyfoes ac athro sydd yn gwneud hynny ac yn trin y Beibl fel dim mwy na darn o lenyddiaeth ysbrydoledig, gan ei osod ochr yn ochr â gweithiau awduron enwog y gorffennol. Mae rhai'n honni nad yw'n ddim mwy ysbrydoledig nag unrhyw waith cain arall, gan ei roi ochr yn ochr â *Dwyfol Gân* gan Dante, *Coll Gwynfa* Milton, neu *Taith y Pererin* Bunyan.

Ond ystyriwch hyn: y peth pwysicaf am unrhyw lyfr yw ei awdur – y meddwl ddaeth â'r llyfr i fod – nid ei deitl, na'i destun, nid ei glawr sgleiniog, na'r ffordd y mae wedi ei gynllunio. Mae cartŵn yn dangos golygfa o gownter mewn llyfrgell ynghanol yr unfed ganrif ar hugain. Mae aelod o'r cyhoedd newydd ofyn am Feibl. “Beibl,” meddai'r llyfrgellydd, “erioed wedi clywed amdano. Wyt ti'n gwybod pwy yw'r awdur?” Wrth siarad am y Beibl, dyma'r cwestiwn allweddol: Llyfr pwy yw hwn? Pwy yw ei awdur? Mae'r testun heddiw yn rhoi'r ateb inni. Llyfr Duw yw hwn, a dyma'r unig awdurdod ar bob mater sydd yn ymwneud â'r ffydd Gristnogol ac athrawiaeth. Nid ydym am symud o'r gwirionedd gwaelodol hwnnw.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

2 Sam. 23:1–4; Heb. 3:7–8; 2 Pedr 1:16–21

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae'r Ysbryd Glân yn cyfathrebu?
2. Pam ydym yn credu mai Duw yw awdur y Beibl?

Gweddi

O Dduw, yr wyt wedi anadlu i mewn i eiriau dynion ac maent wedi dod yn Air. Wrth imi ddarlenn y Beibl, yr wyf yn meddwl dy feddyliau di. Cynorthwya fi i ddal yn dynn yn y gwirionedd hwnnw. Yn enw Iesu. Amen.